Gwybodaeth am drefn grwpio disgyblion yn ôl eu gallu

Mae'r ysgol yn rhedeg system hyblyg o ran grwpiau dysgu. Mae 3 prif fath o grŵp dysgu yn bodoli yn yr ysgol:

1. **Grwpiau Gallu Cymysg**

   Yn y grwpiau hyn, mae pob disgybl yn y flwyddyn yn cael eu dosrannu i grwpiau tebyg o ran maint ar gyfer eu gwersi. Mae plant o bob gallu wedi eu grwpio gyda'i gilydd, efallai gyda chymorth ychwanegol yn y dosbarth i rai disgyblion

2. **Bandio**

   Dyma'r enw a roddir ar grwpio plant yn fras yn ôl eu gallu. Gweithredwn un ddull o fandio ar hyn o bryd. Dyma'r dull defnyddiwn ym Ml 8 a 9 ar gyfer y pynciau craidd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn annibynnol ac ar gyfer Mathemateg ym Ml 7. Os oes 140 o blant mewn blwyddyn ysgol, caiff y plant hynny eu rhannu'n ddwy garfan anhafal (e.e. 80 ar Ochr "PEN" a 60 ar Ochr "TR") yn ôl y galw. Ar y ddwy ochr rydym yn creu grwpiau 1, 2 ac weithiau yn ychwanegu 3ydd grŵp ar yr ochr o'r flwyddyn sydd â'r nifer mwyaf o ddisgyblion. Mae'r pynciau eraill yn cael ei dysgu o fewn bandiau ar y cyd le mae P a T yn grwpiau band 1, E a R yn grwpiau band 2 ac N yn grŵp band 3. Mae'r union nifer o ddisgyblion ym mhob dosbarth yn amrywio o bwnc i bwnc ac yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael, maint yr ystafelloedd a'r nifer o blant sy'n cwympo'n naturiol o ran gallu i mewn i'r band. Mae proffil academaidd a pherfformiad blaenorol cryf ein disgyblion yn golygu bod gennym blant ym mand 2 yng Ngarth Olwg fyddai'n cael eu gosod ym mand 1 mewn nifer o ysgolion eraill y Sir. Disgwyliwn i ddisgyblion band 2 gael canlyniadau TGAU/BTEC L2 da. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng band 1 a band 2.

3. **Setio**

   Mae setio yn system ychydig tynnach na bandio. Mae'r ystod gallu o fewn set yn llai na'r ystod gallu o fewn band. Mae setio yn golygu rhannu'r flwyddyn gyfan (e.e. 170 disgybl) rhwng 6 neu 7 dosbarth. Bydd plant a arferai fod ym mand 1 fel arfer yn cael eu rhannu rhwng set 1, 2 neu 3. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng setiau 1 i 3. Bydd maint y grwpiau yn mynd yn raddol fwy wrth i allu'r disgyblion fynd yn uwch. Hynny ydy, mae setiau gallu uchel dipyn yn fwy na setiau gallu is. Wrth wneud hyn, gobeithiwn roi cyfle i blant gael y sylw sydd ei angen arnynt i lwyddo.

   Nid yw'n bosib i ysgol fandio / setio yn ôl pob pwnc unigol. Gweler y tablau trosodd ar gyfer ein trefniant presennol fel ysgol yn CA3 a 4.

   Mae'r penderfyniadau yn seiliedig ar ganlyniadau'r plentyn, ei anghenion a'i botensial. Ni ddylai unrhyw ffactor arall effeithio ar setio/bandio e.e. ymddygiad. Bydd band dysgu a ffurfiwyd ar y cyd ymysg sawl pwnc yn cael ei lenwi yn gyntaf gan blant sy'n gryf ym mhob un o'r pynciau hynny. Wedyn, bydd athrawon yn trafod y rheini sydd yn gryf yn y mwyafrif o'r pynciau ac fe gant eu cynnwys yn ôl teilyngdod ac os oes lle iddyn nhw.

Model Cwricwlwm CA3 2018-19

Blwyddyn 7 (153): Gallu Cymysg

			Craidd								Dyniaethau			Celfyddydau Mynegiannol			Add Gorff a Thech		TGCh	ITM	
			Cymraeg	Saesneg	Maths		Gwydd.	Llythr.	Rhifedd		Hanes	Daear	Add. Gref	Celf	Cerdd.	Drama	Add. Gorff.	Technol	TGCh	Ffrang.	
Bl. 7 (145)	XYZ	7P (28)	6	6	7PEN/M1	6	5	2	1		2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	XYZ	7E (28)	6	6	7PEN/M2	6	5	2	1		2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	Z	7N (12)	6	6	7PEN/M3	6	5	2	1		2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	XYZ	7T (26)	6	6	7TRF/M1	6	5	2	1		2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	XYZ	7R (26)	6	6	7TRF/M2	6	5	2	1		2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	XYZ	7F (26)	6	6	7TRF/M3	6	5	2	1		2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50

Blwyddyn 8 (135): Bandio ar draws PEN/TR 5 grŵp dysgu

			Craidd										Dyniaethau			Celfyddydau Mynegiannol			Add Gorff a Thech		TGCh	ITM	
			Cymraeg		Saesneg		Maths		Gwydd.		Llythre.	Rhifedd	Hanes	Daear	Add. Gref	Celf	Cerdd	Drama	Add Gorff	Technol	TGCh	Ffrang	
Bl.8 (135)	X	8P (32)	8PEN/C1	6	8PEN/S1	6	8PEN/M1	6	8PEN/G1	5	2	1	2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	Y	8E (27)	8PEN/C2	6	8PEN/S2	6	8PEN/M2	6	8PEN/G2	5	2	1	2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	Z	8N (17)	8PEN/C3	6	8PEN/S3	6	8PEN/M3	6	8PEN/G3	5	2	1	2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	X	8T (31)	8TR/C1	6	8TR/S1	6	8TR/M1	6	8TR/G1	5	2	1	2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50
	Y	8R (28)	8TR/C2	6	8TR/S2	6	8TR/M2	6	8TR/G2	5	2	1	2	2	2	2	2	2	4	3	2	3	50

Blwyddyn 9 (144): Bandio ar draws PEN/TR 5 grŵp dysgu

			Craidd										Dyniaethau			Celfyddydau Mynegiannol			Add. Gorfforol, Dylunio a Thech		TGCh	ITM	
			Cymraeg		Saesneg		Math		Gwydd.		Llythre nnedd	Rhifedd	Hanes	Daear	Add. Gref	Celf	Cerdd	Drama	Add Gorff	Technol	TGCh	Ffrang	
Bl.9 (144)	X	9P (32)	9PEN/C1	6	9PEN/S1	6	9PEN/M1	6	9PEN/G1	6	2	1	2	2	2	2	2	2	3	3	2	3	50
	Y	9E (32)	9PEN/C2	6	9PEN/S1	6	9PEN/M2	6	9PEN/G1	6	2	1	2	2	2	2	2	2	3	3	2	3	50
	Z	9N (15)	9PEN/C3	6	9PEN/S3	6	9PEN/M3	6	9PEN/G3	6	2	1	2	2	2	2	2	2	3	3	2	3	50
	X	9T (32)	9TR/C1	6	9TR/S1	6	9TR/M1	6	9TR/G1	6	2	1	2	2	2	2	2	2	3	3	2	3	50
	Y	9R (30)	9TR/C2	6	9TR/S2	6	9TR/M2	6	9TR/G2	6	2	1	2	2	2	2	2	2	3	3	2	3	50

Modelau Cwricwlwm CA4 2018-19

CA4 (Bl.10: 2018 – 2019) (138) 6 grŵp craidd

			Craidd					Pynciau Opsiwn			
	Gallu	Set	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	Bac CA4	Opsiwn A	Opsiwn B	Opsiwn C	Opsiwn D
Bl 10 (138)	X	1 (32)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	7 [M+Rh] (XX)	12 [TGAU Triphlyg] (XX)	3	4	4	4	
		2 (29)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	8 [M+Rh] (XX)	10 [TGAU Gwydd Dwbl] (XX)	4	4	4	4	
	Y	3 (29)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	8 [M+Rh] (XX)	10 [TGAU Gwydd Dwbl](XX)	4	4	4	4	
		4 (19)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	7 [TGAU Iaith + Llên] (XX)	8 [M+Rh] (XX)	10 [TGAU Gwydd Dwbl](XX)	4	4	4	4	
		5 (16)	7 [TGAU Iaith] (XX)	7 [TGAU Iaith] (XX)	8 [M+Rh] (XX)	10 [TGAU Gwydd Dwbl](XX)	4	4	4	4	
	Z	6 (13)	5 [TGAU Iaith] (XX)	5 [TGAU Iaith] (X)	4* [M+Rh] (X)	6~ [Gwydd Sengl] (XX)	4	4	4	4	4^

CA4 (Bl.11: 2018 – 2019) (129) 6 grŵp craidd

			Craidd					Pynciau Opsiwn			
	Gallu	Set	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	Bac CA4	Opsiwn A	Opsiwn B	Opsiwn C	Opsiwn D
Bl 11 (129)	X	1 (30)	7 [TGAU Iaith + Llên] (30)	7 [TGAU Iaith + Llên] (30)	7 [M+Rh] (32)	12 [TGAU Triphlyg] (32)	3	4	4	4	
		2 (28)	7 [TGAU Iaith + Llên] (31)	7 [TGAU Iaith + Llên] (30)	8 [M+Rh] (27)	10 [TGAU Gwydd Dwbl] (33)	4	4	4	4	
	Y	3 (28)	7 [TGAU Iaith + Llên] (25)	7 [TGAU Iaith + Llên] (26)	8 [M+Rh] (28)	10 [TGAU Gwydd Dwbl](20)	4	4	4	4	
		4 (18)	7 [TGAU Iaith + Llên] (18)	7 [TGAU Iaith + Llên] (25)	8 [M+Rh] (29)	10 [TGAU Gwydd Dwbl](18)	4	4	4	4	
		5 (16)	7 [TGAU Iaith] (15)	7 [TGAU Iaith] (10)	8 [M+Rh] (14)	10 [TGAU Gwydd Dwbl](16)	4	4	4	4	
	Z	6 (13)	5 [TGAU Iaith] (11)	5 [TGAU Iaith] (9)	4* [M+Rh] (0)	6~ [Gwydd Sengl] (11)	4	4	4	4	4^

Pennu Grwpiau a Gwneud Newidiadau - Egwyddorion Allweddol

- Wedi ei yrru gan ddata cyrhaeddiad:

Blwyddyn 7	Data manwl Diwedd CA2 (Lefel +/-), amcangyfrifon o Berfformiad (FFT), Targedau Uchelgeisiol a Phrofion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd
Blwyddyn 8 a 9	Perfformiad yn ystod Bl 7 ac 8 (Lefel +/-) amcangyfrifon o Berfformiad (FFT), Targedau Uchelgeisiol a Phrofion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd
Blwyddyn 10 ac 11	Perfformiad Diwedd CA3 (Lefel +/-) ac asesiadau ffurfiol mewnol Bl 9 , amcangyfrifon o Berfformiad (FFT), Targedau Uchelgeisiol a Phrofion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd

- Mae **angen i bob plentyn gael cyfle i symud** o fewn y trefniant bandiau/setiau os yw hynny er lles eu cynnydd academaidd. Ar yr un pryd, mae'r plant hynny yn gorfod cyfnewid lle gyda rhywun a fydd yn symud band/set hefyd. Er mwyn i hyn gael ei wneud yn deg, gofynnwn i adrannau wneud addasiadau ar sail cynnydd academaidd yn y pwnc, gan drafod gyda'r plentyn os yw newid yn debygol o ddigwydd. Mae tair adeg newid band/set yn bodoli yn ystod y flwyddyn yn dilyn cofnodi yn y system tracio cynnydd a chyfarfodydd Adran i drafod cynnydd pob disgybl - Tachwedd, Mawrth a Gorffennaf. Dylai'r **cysondeb dysgu rhwng un band a'r llall** weithio yn y fath fodd ei bod hi'n bosib i blentyn symud i fyny neu i lawr yn ystod y tri chyfnod Tachwedd, Mawrth a Gorffennaf.
- Symudiadau yn seiliedig ar asesiadau gwaith dosbarth / cartref / profion, data tracio, uchafswm niferoedd mewn grŵp a barn broffesiynol yr athrawon.
- Rhesymau dros symudiad: anawsterau ymdopi â'r gwaith, cynnydd addawol yn y pwnc. Fe ddylai fod tystiolaeth o gofnod o bryder am gynnydd disgybl (Ar darged? = Coch a sticer yn y llawlyfr) cyn ystyried symud disgybl i lawr grŵp / band / set.
- **Dylai'r athrawon** sydd yn dysgu'r pynciau o fewn grŵp ar y cyd gael **cyfrannu at, a gwneud y penderfyniad ar sail y dystiolaeth** sydd ar gael iddyn nhw.
- **Ni ddylai penderfyniad un grŵp ar y cyd effeithio ar benderfyniad ail grŵp o bynciau**.
- **Dylai'r penderfyniad fod yn hysbys i'r plentyn** a dylai gael esboniad o'r penderfyniad. Os yw'n symud i lawr, dylai dderbyn esboniad o'r rhesymau. Bydd aelod o staff wedi trafod y penderfyniad gyda'r plentyn. **Mae angen esbonio'r sefyllfa i rieni ymhob achos.**
- **Gall athrawon awgrymu'r posibiliad o symudiadau band/set i rieni** e.e. mewn nosweithiau rhieni **ond** dylid pwysleisio nad oes gwarant - rhaid bod yr athrawon perthnasol wedi cwrdd i drafod y dystiolaeth cyn gwneud y penderfyniad terfynol.
- **32 disgybl** yw'r uchafswm a ganiateir gan y pennaeth i fod mewn dosbarth. Ni ddylai'r nifer mewn dosbarth fynd yn uwch na hyn o dan unrhyw amgylchiadau

Dull hysbysu Rheolwr Gweithdrefnau o newidiadau

- Cofnod o Drafodaeth Newidiadau Grŵp / Band / Set Dysgu

Trosodd

Cofnod o Drafodaeth Newidiadau
Grŵp / Band / Set Dysgu - drafft

DYDDIAD Y CYFARFOD:

ADRAN(NAU):

PRESENNOL:

Pa ddisgyblion o flwyddyn 7 a drafodwyd?				
Disgyblion	**Grŵp Dysgu presennol**	**Cynnydd / Dirywiad ym mha bwnc?**	**Penderfyniad (Nodi'r set newydd neu "aros")**	**Rheswm dros y penderfyniad**

Pa ddisgyblion o flwyddyn 8 a drafodwyd?				
Disgyblion	**Grŵp Dysgu presennol**	**Cynnydd / Dirywiad ym mha bwnc?**	**Penderfyniad (Nodi'r set newydd neu "aros")**	**Rheswm dros y penderfyniad**

COPI: (Ar.Cwr.→Cyfad→Ar.Cynnydd→AR→CS)